

## **Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

### **Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

#### **Dyddiad:**

7fed o Ragfyr, 2023

#### **Presennol**

John Jones (Cadeirydd), Jess Williams, Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Huw Pritchard, Sarah Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Michael Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg)

Cydymdeimlwyd hefo John Till yn ei brofedigaeth o golli'i fam wythnos ddiwethaf.

#### **Ymddiheuriadau**

Raymond Jones (Pentrefelin), Clifford Williams (Garndolbenmaen), Cynghorydd Stephen Churchman, Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd)

#### **Datgan Buddiant**

MLW (Golan) – Eitem 12(ch) ac 14

JW (Penmorfa) Eitem 14

#### **Penderfyniadau**

Prenteg: Derbyniwyd ateb gan yr Uned Draffig yn dweud nad oes gorchymyn cyfreithiol yn bodoli yn dynodi'r ffordd yma yn unffordd ac yr oedd y marciau ffordd / arwyddion oedd wedi eu gosod yno yn gam arweiniol. Nid oes budd cymunedol i newid statws y ffordd yma, sydd yn broses hir wyntog a chostus. Nid ydynt wedi derbyn cwynion eraill gan ddefnyddwyr y rhwydwaith yn ddatgelu bod y cyffordd yma y peri pryder sydd tu hwynt i'r arfer. Nid oes digwyddiadau wedi ei adrodd i'r Heddlu yn y gyffordd yma dros y 5 mlynedd diwethaf chwaith. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod safle.

Pentrefelin: Soniwyd nad oes signal ffôn wedi bod yn y pentref ers bron i 3 wythnos a'i fod yn cael effaith ar fywoliaeth ac yn achosi pryder mawr i'r rheiny nad oes llinell ffôn ganddynt yn y tŷ. Clerc i gysylltu hefo Liz Saville Roberts. Awgrymwyd bod angen i breswylwyr gysylltu hefo'u darparwyr i gwyno a gweld os oes modd cael arian yn ôl oherwydd diffyg darpariaeth/gwasanaeth.

BT – Y newid o analog i ddigidol - Adroddwyd pryder mawr parthed cynllun BT i drawsnewid o signal analog i ddigidol erbyn 2025. Mae hyn yn golygu na fydd y cartrefi hynny sydd heb fynediad i'r we yn gallu derbyn a gwneud unrhyw alwadau ffôn. Mae llawer o ardaloedd gwledig gyda diffyg signal ffôn symudol hefyd. Beth fyddai'n digwydd petai argyfwng? Clerc i

gysylltu hefo Liz Saville Roberts AS / Mabon ap Gwynfor AC a hefyd Cyngorau Cymuned eraill am gefnogaeth.

Ceisiadau Cynllunio: C23/0835/36/LL: Hen Felin, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0RB.  
Anecs arfaethedig newydd. Dim gwrthwynebiad.